

**Cyngor Cymuned Llanpumsaint**  
**Nodiadau Cyfarfod:08.03.2016**  
**Neuadd Goffa 8.00 y.h**

**Presennol: Y Cyngorwyr ; Danny Davies, Dylan Jones, Carolyn Smethurst, Mike Poston, Pamela Jones, Arwel Nicholas, Cyngorydd Sir, Irfon Jones**  
**Ymddiheuriadau: Wyn Thomas, Elfed Davies**

<b>Rhif Agenda</b>	<b>Nodiadau/ Pendefyniadau</b>	<b>I'w weithredu gan</b>
Datgan Buddiannau	AN, MP, PJ, DJ – Neuadd Goffa	
Cofnodion	Cafwyd yn gywir – AN & MP	
Materion yn Codi	<p><b>Gwella Trafnidiaeth</b> – J McEvoy yn dweud fod y broses wedi cychwyn a'r Ardan berthnasol yn gwneud yn hysbys fydd newidiadau I gyflymdra trafndiaeth ostwng I 20 mya ar hyd yr heol o Cŵpers lawr I gyfeiriad yr Eglwys a'r holl ffordd hyd at cyffordd y Ficerdy ac hefyd o waelod rhiw Llandre heibio'r Ysgol.</p> <p><b>Cinio Blynyddol</b> – CS o blaid, pawb yn cytuno. Clerc I holi'r Railway am noson yr 8fed o Ebrill</p> <p><b>Safleoedd Bus</b> – MP yn adrodd are eu cyflwr sef y safleoedd ger y Railway, Glanyrafon, Cŵpers a Nebo. Angen gwneud gwaith cynnal a chadw. AN yn cynnig a DJ yn eilio, cysylltu gyda Hedydd Rees a gofyn iddo am rhoi pris am neud y gwaith. Hedydd Rees a MP I ymweld â'r safleoedd ac yna Hedydd Rees I gyflwyno pris am wneud y gwaith erbyn cyfarfod Mis Ebrill.</p> <p><b>Diffaethwch Pembombren</b> – Clerc wedi cysylltu gyda Arwyn Howells a thrafod y mater o ganiatau'r gymuned I berchnog'r darn tir a'l wella. Clerc I gysylltu gyda Dŵr Cymru I holi am berchnogaeth y tir ac Arwyn Howells I drafod y mater gyda aelodau arall y teulu.</p> <p><b>Bont Bronwydd a chroesfan y rheilffordd</b> – IJ yn cyhoeddu fydd heol Bronwydd ar gau am gyfnod tra bod Gwili Railway yn gwneud gwelliannu I'r groesfan. Adran Drafndiaeth yn dweud bod bont Bronwydd yn ddigon llydan I osod llinellau gwyn ar ganol yr heol.</p>	
Asesiad Risg	Cyngorwyr yn derbyn copi o'r Asesiad Risg a dderbyniwyd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor yn 2015 ac yn cytuno ei fod yn ddilys. PJ yn cynnig a MP yn eilio	
Gohebiaeth	<p><b>Un Llais Cymru</b> – Fforwm Cyswllt ar y 24 o Fai, Clerc I fynychu.</p> <p><b>Ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa</b> – angen gohirio gwneud penderfyniad tan y cyfarfod nesaf</p> <p><b>Simon Hart a Superfast Cymru</b> – cyfarfod wedi ei drefnu yn</p>	

	<p>Hendy Gwyn ar Daf ar y 6ed o Ebrill, er mwyn trafod pryd fydd Band Eang cyflym ar gael l'n cymunedau. MP a'r Clerc I fynychu.</p> <p><b>Aelodaeth Un Llais Cymru</b> – Clerc yn elwa o'r gwaith mae Un Llais Cymru yn ei wneud, Cynghorwyr yn cytuno ymaelodi am flwyddyn arall.</p> <p><b>Llwybyr Cyhoeddus Nantgwyn</b> – Llwybyr wedi ei ddargyfeirio oddi wrth clôs y fferm; dim gwrthwynebiad l'r newidiadau.</p> <p><b>Côd Ymddygiad</b> – angen l bob Cyngor ei fabwysiadu. DJ a PJ yn cynnig ac eilio.</p>	
Cynllunio	Glandŵr; codi sied beiriannau; dim gwrthwynebiad	
Materion Ariannol	<p><b>Cyfieithu</b>, Trywydd £64.50 AN &amp; DJ</p> <p><b>Goleuni a Thrydan</b> -£2,255.76 – DJ &amp; PJ</p> <p><b>Cyflog y Clerc</b> - £126.20 a £8.80 treth – PJ &amp; DJ</p>	
UFA	<p><b>AN</b> – Da clywed bod llinell wen l fod ar font Bronwydd, beth am y man cul ger Eglwys Nantcelynen? IJ yn dweud bydd gwelliannau yn digwydd yno pan fydd cynllun gwella trafndiaeth ar waith.</p> <p><b>PJ</b> – Dim</p> <p><b>MP</b> – Cyngerdd diweddar wedi codi £1,400 tuag at y Defibrillators. Yn awgrymu bod Cyngor Cymuned yn ceisio am Grant Loteri; pawb yn gytun l gefnog'r fenter</p> <p><b>CS</b> – Codi sbwriel, 16 – 18 wedi dod ynghyd a 20 sach o sbwriel wedi ei grynhoi. Trist iawn o weld bod sbwriel wedi ei luchuio eto... Llais y Llan ar fin ei gyhoeddu, newyddion ac ati l'w danfon at CS erbyn 28.03. Angen cysylltu gyda Simon Charles ynglyn a gosod palmantau. Heol y Bryn wedi ei erydu gan y glaw</p> <p><b>IJ</b> – Dim</p> <p><b>DJ</b> – Dim</p> <p><b>DD</b> - Dim</p>	
Cyfarfod yn gorffen	9.20 yh	

<p>Cafwyd yn gywir : .....</p> <p>(Cadeirydd)</p> <p>Dyddiad : .....</p>	<p>Cafwyd yn gywir : .....</p> <p>(Ysgriennydd)</p> <p>Dyddiad: .....</p>
--	---